

YMCHWILIAD TYSTIOLAETH CLILC I COVID-19 A'I EFFAITH AR Y SECTOR GWIRFODDOL. PWYLLGOR ARCHWILIO CYDRADDOLDEB, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU.



CLILC • WLGA

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.
2. Mae CLILC yn sefydliad trawsbleidiol a arweinir yn wleidyddol, gydag arweinwyr pob awdurdod lleol yn penderfynu ar bolisi drwy'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor CLILC yn ehangach. Mae CLILC hefyd yn penodi uwch aelodau fel Llefarywyr a Dirprwy Lefarywyr i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol ar faterion polisi ar ran llywodraeth leol.
3. Mae CLILC yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr proffesiynol a chymdeithasau proffesiynol o lywodraeth leol ac mae'n cael cyngor ganddynt yn aml, fodd bynnag, CLILC yw corff cynrychioliadol llywodraeth leol ac mae'n darparu llais cyfun, gwleidyddol llywodraeth leol yng Nghymru.

CYFLWYNIAD

4. Mae COVID-19 wedi cael effaith ddinistriol ar fywydau nifer o bobl ac yn anffodus mae wedi arwain at farwolaeth dros 2,700¹ o bobl yng Nghymru. Mae'r marwolaethau hyn, y cyfnod clo cenedlaethol a lleol a'r gofynion o ran gwarchod a hunan ynysu wedi cael effaith ddifrifol ar les ac ansawdd bywyd mewn cymunedau lleol. Mae busnesau, yr economi a chyllid personol wedi eu heffeithio'n sylweddol ac mae economi Cymru, y DU a'r economi yn fyd eang yn wynebu cyfnod o her digynsail.
5. Mae tystiolaeth blaenorol CLILC i Bwyllgorau'r Senedd² wedi amlinellu'r heriau sylweddol a wynebir gan awdurdodau lleol yn y cyd-destun hwn, ond mae hefyd wedi amlygu ymateb parhaol cydweithredol a phwysig awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth cyhoeddus lleol yn ystod y pandemig.
6. Mae Cyngorau wedi dangos eu bod mewn lle unigryw yng nghalon eu cymunedau ac wrth galon y broses cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ac wedi arddangos hyblygrwydd, arloesedd, gwytnwch ac ymatebolrwydd. Mae Cyngorau wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol wrth ymateb i'r pandemig ac mae gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol wedi chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cymorth i gymunedau Cymru.
7. Ers dechrau COVID 19, ar lefel genedlaethol, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Un Llais Cymru a CLILC wedi sefydlu [Protocol Ar Y Cyd](#) yn amlinellu ymrwymiad y sectorau cenedlaethol i "iechyd a diogelwch pobl a chymunedau Cymru yn ystod yr argyfwng hwn." Roedd y protocol ar y cyd yn atgyfnerthu'r egwyddorion craidd canlynol:
 - Parchu'n gilydd – deall a gwerthfawrogi y cyfraniadau gwahanol mae'r lleill yn eu gwneud

¹ <https://www.data.cymru/covid19/mortality>

² <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2772>

- Cyfathrebu – pwyntiau cyfathrebu clir a rheolaidd ar faterion o bryder.
 - Rhannu gwybodaeth – rhannu gwybodaeth all helpu i gefnogi pobl a chymunedau mewn ffordd amserol ac effeithiol.
 - Hyblygrwydd – canolbwyntio ar yr hyn sydd gennym i'w wneud er mwyn gwarchod iechyd a diogelwch pobl yn ystod yr argyfwng. Cytuno i ohirio ymrwymadau dianghenraid lle bo'n briodol, ond diogelu pobl ddiamddiffyn.
 - Cyd-gynhyrchu atebion – gweithio gyda'n gilydd i greu atebion sy'n gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ar y cyd.
8. Mae CLILC wedi gweithio'n agos gyda CGGC drwy'r pandemig ac wedi hyrwyddo'r broses o 'recriwtio' a threfnu gwirfoddolwyr a gyfeiriwyd drwy lwyfan Gwirfoddoli Cymru³ a chynlluniau gwirfoddoli lleol. Mae gwefan CLILC hefyd yn cynnwys porth Gwirfoddoli COVID 19⁴ sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau a chanllawiau.
9. Mae'r sector gwirfoddol yn eang, ac yn cynnwys popeth o wirfoddoli unigol anffurfiol, grwpiau cymunedol lleol, a sefydliadau trydydd sector cenedlaethol neu ranbarthol a reolir yn broffesiynol. Tra bo'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus yn cael eu disgrifio'n aml fel rhai ar wahân, mae'n bwysig cydnabod eu bod yn rhannu egwyddorion cyffredin gwasanaeth cymunedol (y mae rhai elfennau wedi eu hamlinellu uchod) ond hefyd yn rhannu nifer o'r un bobl; miloedd o aelodau etholedig a gweithwyr cyngor a sector cyhoeddus sy'n byw ac yn gwirfoddoli ac yn cefnogi eu cymunedau lleol. Yn ystod COVID 19, mae cynghorwyr a gweithwyr y cyngor wedi bod yn rhan greiddiol o'r ymdrech wirfoddoli, er enghraifft. Roedd 'cynllun cyfeillio' Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio 590 o wirfoddolwyr o blith y staff, wedi eu paru â hyd at 10 o oedolion hŷn / teuluoedd diamddiffyn yr un, bu aelodau etholedig Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd rhan weithredol o safbwynt cefnogi eu cymunedau, gan y byddai aelodau oedd yn gwarchod eu hunain yn ffonio aelodau diamddiffyn o'u cymunedau a bu un aelod etholedig, mewn partneriaeth â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, yn darparu bwyd a meddyginiaeth i fwy na 90 o drigolion bob dydd. Mae gwasanaeth Cyfeillio Ffôn Cyngor Sir Ddinbych wedi ei sefydlu er mwyn gwirio ar les pobl, cynnig cyfeillgarwch rheolaidd iddynt dros y ffôn a rhoi gwybod iddynt am y gwasanaethau cynnal sy'n cael eu gweithredu gan staff y cyngor, gwirfoddolwyr, ac aelodau etholedig.

Darparu cyllid a gwasanaeth ac effeithiolrwydd cymorth gan lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol;

10. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arweinyddiaeth genedlaethol ac mae hyn wedi'i gyfannu gydag arweinyddiaeth gymunedol drwy lywodraeth leol, yn gweithio'n agos gyda chyrrff gwirfoddol a thrwy eu Cynghorau Gwirfoddol Sirol.
11. Tra bod llawer o'r strategaeth yn cael ei gosod yn genedlaethol, mae'r argyfwng wedi dangos pwysigrwydd sicrhau bod partneriaid sy'n darparu'n lleol yn ymwneud â dylanwadu'i datblygiad; nid yn unig mae'n bwysig i ganiatáu hyblygrwydd i ddehongli strategaeth ac ymateb yn unol ag amgylchiadau a chapasiti lleol ond bod sefydliadau gyda phrofiad darparu gwasanaeth ac arbenigedd gweithredol yn helpu i ddatblygu'r ymateb strategol.
12. Mae Cynghorau yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau gan gynnwys y sector gwirfoddol, cynghorau trefi a chymunedau, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac ati i ddarparu cymorth i bobl sydd yn gwarchod eu hunain a'r rheiny sydd angen hunan-ynysu gan gynnwys gwasanaethau cyfeillio, siopa, casglu presgripsiwn a cherdded cŵn.

³ <https://volunteering-wales.net/vk/volunteers/index-covid.htm?lang=EN>

⁴ <https://www.wlga.wales/volunteering>

13. Mae cydnabyddiaeth fod defnyddio adnoddau cymunedol a'r sector gwirfoddol wedi bod yn hanfodol i'r prosesau cenedlaethol a lleol o gefnogi pobl oedd yn gwarchod eu hunain neu sydd wedi gorfod hunan-ynysu, gan gefnogi awdurdodau lleol yn aml fel y man cyswllt cyntaf. Roedd arolygon Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020 yn nodi fod y ffaith fod cynghorau, sefydliadau gwirfoddol, cynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol wedi symud mor sydyn i gefnogi'r mwyaf diamddiffyn yn eu hardaloedd yn arddangos effeithiolrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, pwysigrwydd gwybodaeth leol ar gyfer defnyddio adnoddau cymunedol yn effeithiol ac arferion newydd arloesol.
14. Bydd gwybodaeth a anfonir gan sefydliadau trydydd sector at y Pwyllgor yn rhoi cipolwg gwerthfawr o brofiadau o heriau o safbwynt cyllido a darparu gwasanaethau, arloesi ac ymateb yn ystod y pandemig.
15. O safbwynt llywodraeth leol, mae cynghorau wedi nodi rhai o'r heriau allweddol a brofwyd gan sefydliadau trydydd sector, sydd yn cynnwys:
 - Cydbwysu'r galw sylweddol sydd wedi ymddangos 'dros nos' ar gyfer cefnogaeth gwasanaeth, yn aml ar gyfer y rhai mwyaf diamddiffyn, a cholled mewn incwm o ganlyniad i lai o gyfleoedd i godi arian;
 - Costau darparu amgylcheddau sy'n ddiogel o ran COVID a dod o hyd i gyfarpar diogelu personol (y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol); a
 - colli'r capasiti gwirfoddoli profiadol oedd yn gorfod gwarchod eu hunain neu hunan-ynysu, gan osod pwysau ychwanegol ar staff a gwirfoddolwyr cyfredol y trydydd sector.
16. Tra bod cysylltiadau lleol, ar y cyfan, wedi bod yn adeiladol ac effeithiol, mae'n anorffod fod tensiynau wedi bod mewn rhai ardaloedd rhwng cyrff y sector gwirfoddol a chynghorau a phartneriaid eraill, yn enwedig lle bu pwysau cyllido neu gyfyngiadau capasiti. Yn y gorffennol mae'r Pwyllgor wedi nodi nad yw bob amser, o ystyried cyflymder y broses gwneud penderfyniadau a'r angen am ymateb sydyn, wedi bod yn bosib dilyn dulliau gweithredu sefydledig o safbwynt ymgynghori ac ymgysylltu.
17. Mae COVID 19 wedi creu ymateb cadarnhaol gan unigolion a chymunedau, yn enwedig yn ystod y cyfnod ymateb cynnar, lle gwelwyd miloedd o bobl o bob rhan o Gymru yn camu ymlaen i wirfoddoli neu gynnig cymorth i gymdogion neu gymdogion diamddiffyn yn eu cymunedau.
18. Yn ôl y CGGC, ers dechrau'r pandemig, mae 18,000 o bobl wedi cofrestru drwy Gwirfoddoli Cymru, porth ar-lein Cymru ar gyfer gwirfoddoli. Fe wnaeth yr ymateb cadarnhaol hwn hefyd achosi her gychwynnol i sefydliadau cymunedol a thrydydd sector sefydledig, ac awdurdodau lleol o safbwynt cydlynu a chefnogi'r ymdrech wirfoddol hon, gan baru galw lleol gyda capasiti a sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael digon o wybodaeth drwy'r holl broses. Mae dadansoddiad gan CLILC yn awgrymu bod 40% o'r gwirfoddolwyr 'newydd' yma am barhau i wirfoddoli ar ôl COVID 19; mae cynnal ymrwymiad a chyfranogiad y gwirfoddolwyr 'newydd' hyn yn heriol o ystyried natur hir y pandemig, ond o'i reoli yn llwyddiannus bydd yn darparu'r sylfeini ar gyfer cydnerthu, adnewyddu ac adfer cymunedol yn dilyn COVID 19.
19. Mae'r sector gwirfoddol wedi croesawu rhaglenni cyllido Llywodraeth Cymru fel Gweithredu Gwirfoddol, Cronfa Argyfwng y Sector Gwirfoddol, Cronfa Adfer y Sector Gwirfoddol a Chronfa Wrthsefyll y Trydydd Sector, sydd wedi eu dosbarthu yn bennaf drwy CGGC.
20. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi bod o gymorth yn bendant, fodd bynnag mae effaith COVID-19 wedi cael a bydd yn parhau i gael goblygiadau sylweddol ar sefydliadau gwirfoddol o safbwynt cynhyrchu incwm, yn enwedig ar gyfer y rheiny sy'n codi arian drwy gydol y flwyddyn, felly dylid ystyried ymestyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y

Trydydd Sector er mwyn cynorthwyo i fodloni'r costau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a pharhau i gynnal sefydlogrwydd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adolygu meini prawf cyllido er mwyn galluogi grwpiau sydd newydd eu sefydlu i gael mynediad at gyllid i ehangu eu gweithgareddau lleol. Croesawyd y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cam-drin domestig a camddefnyddio sylweddau hefyd, ond mae angen mwy o fuddsoddiad gan fod yr argyfwng hwn yn ymestyn dros gyfnod hirach.

21. Mae Cynghorau wedi ceisio darparu cymorth ychwanegol i'w cyrff sector gwirfoddol er enghraifft, drwy lacio amodau grantiau neu gytuno i ail-ganolbwyntio ar weithgareddau craidd er mwyn cefnogi'r ymateb ar y cyd o safbwynt COVID 19. Er enghraifft bu Cyngor Sir Benfro yn gweithio gyda'r partneriaid statudol eraill i gefnogi Cyngor Gwirfoddol Sirol Benfro, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o ffrydiau cyllid cenedlaethol a lleol i greu un gronfa integredig i helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol oroesi'r argyfwng a datblygu ymatebion arloesol o ran darparu gwasanaethau o safbwynt cyfyngiadau COVID19. Mae eraill, fel Cyngor Sir Y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot wedi rhoi hyblygrwydd i sefydliadau trydydd sector a gyllidwyd gan grantiau i ddefnyddio eu cyllid fel bo'n briodol i'r sefyllfa.

Gwirfoddoli a chydnerthu cymunedol ac arferion da a chyfleoedd a heriau'r dyfodol

22. Ar ddechrau'r pandemig recriwtiwyd gwirfoddolwyr yn bennaf drwy [Gwirfoddoli Cymru](#), fodd bynnag roedd trefniadau a mentrau lleol eraill fel llwyfannau [Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd](#) [Cyngor Caerdydd](#) , [Cysylltu Sir Gâr](#) Cyngor Sir Gâr ac Ap Symudol Cymorth Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, sy'n paru ceisiadau am help gyda gwirfoddolwyr. Fe wnaeth CLILC hefyd [gyfeirio](#) gwirfoddolwyr lleol at ganllawiau CGGC, oedd yn cynnwys diogelu, trin arian parod, a diogelwch personol ac ati. Fe wnaeth CGGC hefyd ddarparu gwybodaeth er mwyn i ganolfannau cyswllt cynghorau allu cyfeirio galwyr at asiantaethau'r sector gwirfoddol. Amcangyfrifir fod cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio drwy'r llwybrau hyn yn oddeutu 24,000.
23. Yn ogystal, cododd nifer o fentrau gwirfoddoli anffurfiol fel grwpiau cymunedol, ffydd, [Covid19 Mutual Aid](#) a grwpiau 'helpu cymdogion' o'r argyfwng.
24. Mae'r sector gwirfoddol wedi bod yn gyfrwng i symud cefnogaeth gymunedol tuag at yr argyfwng, yn enwedig o safbwynt recriwtio, trefnu, darparu canllawiau a chymorth a hyfforddiant. Yn ogystal, mae'r sector gwirfoddol yn bwydo i mewn i bolisi ac arferion ar lefel genedlaethol, er enghraifft mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam wedi cynnal adolygiad cyflym o ddsbarthiad bwyd yn eu hardal yn ystod yr argyfwng a hysbysu Cynghrair Tlodi Bwyd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru o safbwynt diogelu'r cyflenwad bwyd.

Mae rhai o agweddau allweddol dulliau cydweithio llwyddiannus o ran gwirfoddoli yn cynnwys:

- **Gweithio mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid lleol e.e.**

25. Ym mis Ebrill sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Grŵp Llywio Cymorth Cymunedol er mwyn arolygu'r ymateb i argyfwng COVID-19 a sefydlwyd saith hwb cydnerthu cymunedol lleol aml asiantaeth i gefnogi aelodau o'r gymuned yr oedd angen cymorth arnynt.
26. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gweithio'n agos gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent i ddatblygu cynllun newydd i ddatblygu cymorth gwirfoddol, gan annog ac adeiladu hyder pobl ddiameddiffyn ar yr un pryd. Mae'r cynllun newydd yn cysylltu'n dda gyda Ardal Weithredu Gwirfoddol Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Caerffili, a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

27. Mae Cyngor Caerdydd wedi sefydlu grŵp Angori Gwirfoddolwyr a gyfarfu i sicrhau bod yr holl adnoddau hyfforddi sydd ar gael yn cael eu rhannu ymysg y grwpiau cymunedol ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu grŵp Cydlynwyr Covid-19 ar y cyd, wedi ei gadeirio gan arweinydd y Cyngor, ar draws sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector. Yng Nghyngor Sir Powys, roedd darparu'r cymorth yn ganlyniad cydweithio rhwng gwasanaethau'r Cyngor a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys a grwpiau lleol eraill, drwy Dîm Ymateb i Argyfwng y Sector Cymunedol.
- **Dealltwriaeth o sgiliau a chapasiti adeiladu yn y gymuned e.e.**
28. Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gynnal ymarfer mapio er mwyn deall yn well y mathau o gymorth oedd ar gael gan grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol a busnesau lleol ar draws y sir, fel y gallai Timau Ymateb Lleol eu defnyddio wrth gefnogi trigolion diamddiffyn i siopa, casglu presgripsiynau, cyfeillio ac ati. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot yn defnyddio dull gweithredu'n seiliedig ar asedau cymunedol fel sail ar gyfer gwaith datblygu cymunedol yn yr hir dymor.
- **Mae ymgysylltu gyda chymunedau a phartneriaid yn effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y defnydd o wirfoddolwyr e.e.**
29. Yn Sir Fynwy, cyn y pandemig, roedd y Cyngor yn ceisio defnyddio potensial y cymunedau i ddatblygu [Rhaglen Arweinyddiaeth Gymunedol](#). O ganlyniad, daeth dros chwedeg o grwpiau cymunedol a arweiniwyd gan wirfoddolwyr, gyda dros 1000 o wirfoddolwyr, yn barod i symud "dros nos". Fe gydlynodd y cyngor 'rwydwaith cymunedol rhithwir', gyda phwrpas clir ar y cyd i ddiogelu bywyd a chefnogi cymunedau, heb unrhyw fylchau nac unrhyw ddyblygu.
30. Mae'r argyfwng wedi arddangos gallu'r sector gwirfoddol i weithio mewn partneriaeth gyda chynghorau, byrddau iechyd lleol a phartneriaid eraill i ymateb yn gadarnhaol i anghenion eu cymunedau. Ers dechrau'r pandemig mae CLILC wedi nodi a rhannu arferion a phrofiadau er mwyn cynnal y dysgu, gan gynnwys cyfres o weminarau ar gyfer y sector gwirfoddol i adlewyrchu a rhannu arferion gan gynnwys digwyddiad ar y cyd gyda CLILC ac Un Llais Cymru, [Paratoi ar gyfer gwahanol ddyfodol, adeiladu ar ymateb cymunedol a gwirfoddoli](#)
31. Mae CLILC hefyd wedi nodi sawl enghraifft o [arferion da](#) gan y Cynghorau, sy'n cynnwys astudiaethau achos o arferion gwirfoddoli da gyda phartneriaid.
32. Mae'r prosiect Cyfeillion mewn Angen, prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan Age Cymru, wedi atynnu pobl o'r 22 cyngor gan weithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol i ychwanegu at wasanaethau cyfeillio.
33. Yn ogystal, mae cronfa "gwirfoddoli cynaliadwy" arfaethedig gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyfleoedd pellach i sefydlu arferion cydweithredol gyda'r sector gwirfoddol a phartneriaid eraill.
34. Roedd rhai o'r heriau a ragwelwyd ar ddechrau'r argyfwng hwn yn cynnwys y byddai gostyngiad yn y nifer o wirfoddolwyr ar ddiwedd y cynllun ffyrlo. Roedd gormod o wirfoddolwyr ar gyfer rhai o'r cynlluniau ac ni chafodd yr holl wirfoddolwyr eu defnyddio. Mae'n her i sefydliadau reoli'r diddordeb mewn gwirfoddoli mewn ffordd bositif. Rhaid sicrhau hefyd fod gwirfoddolwyr yn derbyn yr hyfforddiant priodol i sicrhau diogelu a iechyd a diogelwch ar gyfer y gwirfoddolwyr eu hunain yn ogystal â'r person sydd yn gofyn am gymorth.
35. Mae'n amlwg fod cyflymder a hyd y pandemig yn mynd i gael effaith ar wytnwch a lles meddyliol gwirfoddolwyr a staff yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

CASGLIAD

36. Yn ystod y cyfnod anarferol hwn mae partneriaid y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus wedi gweithio gyda'i gilydd, gan wneud eu gorau o dan amgylchiadau heriol iawn a'r nod

bob amser oedd cyflawni'r canlyniadau gorau. Bu heriau ac anawsterau, ac mae'n debygol y bydd mwy ohonynt gan fod disgwyl i'r argyfwng barhau am beth amser. Bydd Llywodraeth Leol a'r sector gwirfoddol yn parhau i weithio gyda'i gilydd i adeiladu ar beth sydd wedi gweithio'n dda a dysgu gwersi ar gyfer gwella a cheisio cefnogi'r mwyaf diamddiffyn, adeiladu gwytnwch cymunedol a chynllunio ar gyfer adferiad cynaliadwy a hir dymor.